

Pa mor ddiogel yw'ch cartref chi?



Dyma gwis hwyliog i weld pa sgôr gewch chi!

Oes gennych chi larymau mwg ar bob llawr? Oes Nac oes

Fyddwch chi'n gwirio'ch larymau mwg yn gyson? Byddaf Na fyddaf

Fyddwch chi'n defnyddio ffriwr saim dwfn sy'n cael ei reoli gan thermostat, neu sglodion ffwrn? Byddaf Na fyddaf

Os bydd rhywbeth yn arllwys ar y llawr, fyddwch chi'n ei sychu ymaith ar unwaith? Byddaf Na fyddaf

Ydy'ch grisiau chi'n rhydd rhag annibendod? Ydynt Nac ydynt

Ydy pob rÿg a charped yn gadarn yn ei le? Ydy Nac ydy

Oes gennych chi ddigon o ganllawiau ar y grisiau ac yn y stafell ymolchi?

Oes Nac oes

Fyddwch chi'n gwisgo sgidiau sy'n ddigon cadarn? Byddaf Na fyddaf

Ydy'ch cyntedd a'ch grisiau wedi'u goleuo'n dda? Ydynt Nac ydynt

A gaiff eich simnai'i sgubo'n gyson neu'ch offer nwy eu gwasanaethu'n gyson? Cânt Na cânt

Ydych chi'n cymryd y maint cywir o feddyginiaeth? Ydw Nac ydw

Fyddwch chi'n defnyddio ysgol fach yn hytrach na dringo ar gadair i gyrraedd rhywbeth? Byddaf Na fyddaf

Fyddwch chi'n storio pethau bob-dydd mewn lleoedd sy'n hawdd eu cyrraedd? Byddaf Na fyddaf

Diolch i chi am ateb y cwis hwn ynghylch diogelwch eich cartref.

Sgorau:

Os gwnaethoch chi ateb 'Oes/Byddaf' ac ati i 12 a rhagor, llongyfarchiadau - rydych yn gwneud yn dda ac yn llai tebygol o gael damwain. Daliwch ati ond daliwch i fod yn ofalus iawn. 😊

Os gwnaethoch chi ateb 'Oes/Byddaf' ac ati i 10 - 12, rydych chi'n gwneud yn dda ond astudiwch eich cartref unwaith eto i weld sut mae ei wella. 😊

Os gwnaethoch chi ateb 'Oes/Byddaf' ac ati i lai na 10, PWYLL PIAU HI!! Astudiwch eich cartref i weld pa welliannau y gallwch chi eu gwneud iddo. Gofynnwch i aelod o'r teulu neu gyfaill eich helpu chi i wneud pob newid sydd ei angen. 😞

Gair i gall am ddiogelu'ch cartref:

- Gosodwch a gwiriwch larymau mwg ar bob llawr
- Gwasanaethwch eich offer nwy bob blwyddyn
- Defnyddiwch ffriwr braster dwfn trydan neu, yn well byth, sglodion ffwrn – maen nhw'n fwy diogel ac yn iachach
- Gwnewch yn siŵr bod y rygiau a'r carpedi wedi'u gosod yn gadarn
- Rhowch ddigon o oleuadau yn y cyntedd ac ar risiau

- Os ydych chi'n cymryd llawer o feddyginiaethau, gwiriwch eich bod yn eu cymryd yn gywir
- Peidiwch â dringo ar gadair – defnyddiwch ysgol fach
- Gwnewch yn siŵr bod eich sgidiau'n gryf ac yn synhwyrol
- Tacluswch unrhyw annibendod sydd ar y grisiau

Os bydd angen cymorth arnoch:

- Gall eich brigâd dân leol eich helpu i osod larymau tân neu roi cyngor ynghylch diogelwch rhag tân.
- Bydd eich swyddfa Gofalu ac Atgyweirio leol yn falch o'ch helpu.
- Neu fe allwch chi gysylltu â'ch cyngor lleol.

Peidiwch ag oedi – ewch ati cyn 'fory!